Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

30.01.23
Neris Morgans

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir cyfarfod FFORWM CYLLID YSGOLION CEREDIGION yn rhithiol drwy 'Zoom' ar **Ddydd Llun, 6 Chwefror 2023** am **6.00yh** i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol
3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 1 Gorffennaf 2022 (Atodiad A)
4. Materion yn codi o'r Cofnodion
5. Sefyllfa Gorfforaethol Gyffredinol

   Papurau Cefndirol:
   Adroddiad- Cyllideb Refeniw 2023-24 ar rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn.pdf (ceredigion.gov.uk)
6. Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig
7. Unrhyw fater arall

Dear Sir/Madam

I write to inform you that a Meeting of the CEREDIGION SCHOOLS FINANCE FORUM will be held remotely via 'Zoom' on **Monday, 6 February 2023** at **6.00pm** for the transaction of the following business:

1. Apologies
2. Disclosure of personal interest
3. To confirm the Minutes of the Meeting held on 1 July 2022 (Appendix A)
4. Matters arising from the Minutes
5. Overall Corporate Position

   Background Papers:
   Report- 2023-24 Revenue Budget and the Multi-year Capital programme.pdf (ceredigion.gov.uk)
6. Schools Delegated Budget
7. Any Other Business

**Yr eiddoch yn gywir/** Yours faithfully

***Miss Lowri Edwards***
***Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd/***
*Corporate Lead Officer: Democratic Services*

**At: Gadeirydd ac Aelodau Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion**
To: Chairman and Members of the Ceredigion Schools Finance Forum

**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol drwy ZOOM ar ddydd Gwener, 1 Gorffennaf 2022.**

**Aelodau heb fod o ysgolion**: Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant a'r Cynghorydd Endaf Edwards (Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu).

**Aelodau o ysgolion**:
Penaethiaid: Mike Carruthers (Ysgol Gynradd Comins Coch); Jane Wyn (Ysgol Bro Pedr); Dorian Pugh (Ysgol Henry Richard) a Mair Hughes (Ysgol Penglais).
Rhiant-lywodraethwr: Gary Davies (Ysgol Gynradd Ciliau Parc).

**Swyddogion yn bresennol**: Cheryl Evans, Swyddog Derbyn Ysgolion; Chris Macey, Cyfrifydd y Gwasanaeth- Cefnogaeth i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol; Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd; Carol Thomas, Cyfieithydd a Rhidian Jones, Cyfieithydd.

(10.25am – 10.43am)

1. **Ymddiheuriadau**

i) Ymddiheurodd Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd; Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn; Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gymunedol Rhydypennau; Stephen Cooper, Rhiant-lywodraethwr: Ysgol Bro Pedr a Chris Evans, Rhiant-lywodraethwr: Ysgol Uwchradd Aberteifi am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

ii) Ymddiheurodd y Cynghorwyr Wyn Thomas (Cadeirydd) a Bryan Davies am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill gyda'r Cyngor.

2. **Gweithdrefn**

Eglurodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant ei bod wedi cytuno i Gadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Cynghorydd Wyn Thomas. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb.

3. **Datgelu buddiannau personol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

4. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2019**

**CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2019 yn rhai cywir.

5. **Materion yn codi o gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30 Ionawr 2019**

Dim.

6. **Cronfeydd wrth gefn Ysgolion ar 31 Mawrth 2022**

Nododd Cyfrifydd y Gwasanaethau – Cymorth i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol fod y 2 flynedd ddiwethaf wedi effeithio ar Gronfeydd Wrth

Gefn Ysgolion gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol tua diwedd y flwyddyn ariannol. Oherwydd y byr rybudd, nid oedd ysgolion yn gallu gwario’r cyllid ychwanegol hwn erbyn 31 Mawrth 2022. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa ac nid oedd yn poeni am gronfeydd wrth gefn sylweddol ysgolion. Roedd ymarfer wedi'i gynnal dros y mis diwethaf i ddeall sut roedd pob ysgol yn yr awdurdod lleol yn bwriadu defnyddio'r cyllid ychwanegol dros y 1-3 blynedd nesaf. Erbyn diwedd y 3 blynedd, bydd ysgolion mewn sefyllfa debyg i’r hyn yr oeddent yn ariannol cyn pandemig Covid-19. Bydd yn allweddol i fonitro’r sefyllfa wrth symud ymlaen.

Roedd Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion ar 31 Mawrth 2022 fel a ganlyn: ysgolion cynradd - £4.2m, ysgolion uwchradd - £2.6m, ysgolion pob oed - £1.7m (cyfanswm o £8.5m). Roedd Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion wedi cynyddu dros £2m ers mis Mawrth 2021. Roedd y Grŵp Cyllid yn y broses o gasglu gwybodaeth yn genedlaethol; roedd yn ymddangos bod y cynnydd mewn Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion yn wir ym mhob awdurdod lleol. Er bod ychydig o ysgolion yng Nghymru mewn diffyg, nid oedd dim ysgolion yng Ngheredigion yn y sefyllfa hon ar hyn o bryd.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant eu bod yn ymwybodol o deimladau ysgolion tuag at grantiau hwyr gan Lywodraeth Cymru, gan ei fod yn ychwanegu at eu llwyth gwaith. Amlygwyd bod grantiau yn cyfrif am £3m allan o'r £8m o Gronfeydd Wrth Gefn Ysgolion. Gwerthfawrogodd yr ymdrechion a’r cydweithio rhwng y tîm cyllid a’r ysgolion a’r creadigrwydd wrth sicrhau bod ysgolion yn cael y gwerth gorau. Nid oes gan yr un ysgol yng Ngheredigion lai na 5% o'r cronfeydd wrth gefn. Trothwy'r cronfeydd wrth gefn a bennwyd gan y Swyddfa Archwilio ar gyfer ysgolion cynradd yw dros £50k gydag ysgolion uwchradd wedi'u pennu i dros £100k. Mae 3 ysgol yn yr awdurdod lleol o dan y trothwy. Yn ariannol, dros dro oedd sefyllfa'r ysgolion a gallai'r sefyllfa newid yn gyflym gyda'r cynnydd mewn prisiau ynni, a byddai angen monitro hyn.

Rhannodd aelodau’r ysgol eu bod yn croesawu’r cyllid ychwanegol a’u bod yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau â’r haelioni o ystyried mai dim ond nawr yr oeddent yn gweld gwir effeithiau’r pandemig. Er gwaethaf cronfeydd wrth gefn sylweddol ysgolion, roeddent yn ymwybodol y gallai ysgolion fod mewn diffyg yn fuan o ystyried y cynnydd mewn prisiau ynni oni bai bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol.

**CYTUNWYD** i nodi’r wybodaeth.

7. **Diweddariad Cyllid Corfforaethol**

Eglurodd Cyfrifydd y Gwasanaethau – Cymorth i’r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol fod y cyfarfod hwn wedi ei gynnal naill ai yn nhymor yr Hydref neu’r Gwanwyn yn y gorffennol ac y byddai diweddariad ynglŷn â chyllideb y flwyddyn yn cael ei roi. Ar hyn o bryd roedd y gyllideb ar gyfer eleni wedi’i phennu ac nid oedd y gwaith ar gyfer y gyllideb nesaf wedi cychwyn eto. Yn ogystal â'r grantiau, amlygodd fod y setliad ariannol ar

hyn o bryd wedi bod yn fwy na'r blynyddoedd diwethaf ond bod y cynnydd ar gyfer eleni yn unig. O'r cyllidebau dangosol cenedlaethol, byddai'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf yn £5.3bn ac yna £5.4bn y flwyddyn wedyn. Gan fod poblogaeth Ceredigion wedi lleihau, byddai llai o gynnydd i'r awdurdod lleol. Roedd pryderon ac ansicrwydd yn genedlaethol ynghylch prisiau ynni a lefel y cynnydd mewn cyflogau ar gyfer staff ym mis Ebrill ac ar gyfer athrawon ym mis Medi. Wrth symud ymlaen, byddai cydweithio a gweithio gydag awdurdodau lleol eraill yn allweddol.

Nododd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant y byddai'r drafodaeth gyda llywodraethwyr a phenaethiaid yn parhau wrth i'r flwyddyn academaidd fynd rhagddi. Dylid ystyried defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad i gefnogi costau cynyddol.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

**8. Unrhyw fater arall**
Dim.

**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r fforwm gyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w ddosbarthu maes o law.